# CYFARFOD PENDERFYNIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR

**DYDD** Iau, 11 Hydref 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd:** E. Dole (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol).

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
M. Bull, Rheolwr Rhaglen Strategol Adfywio Ffisegol;
B Hale, Cydgysylltydd Datblygu Economaidd;
C. Owen, Cynorthwyydd Adfywio Cymunedol;
P White, Cydgysylltydd y Rhaglen Adfywio Ffisegol (Gwledig);
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Swyddfa'r Arweinydd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 2.00 pm - 2.45 pm

**1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 11 MEDI, 2018**

**PENDERFYNWYD llofnodi Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Medi 2018, gan ei fod yn gywir.**

**3. CYMORTH ARIANNOL O'R CRONFEYDD GRANTIAU CANLYNOL: GRONFA CYLLID A DARGEDIR A'R CRONFA'R DEGWM**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa'r Degwm a'r Gronfa Cyllid a Dargedir yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

| **Ymgeisydd** | **Dyfarniad** |
|---|---|
| Neuadd Bentref Llangathen | £3,000.00 |
| Cymdeithas Les Gât a'r Cylch | £3,000.00 |
| Grŵp Theatr Gymunedol Rhydaman | £430.00 |
| Llanelli Mynydd Mawr Railway Company Ltd. | £13,000.00 |

**4. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI**

**PENDERFYNWYD yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitemau canlynol yn cael eu cyhoeddi, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**5. CRONFA DATBLYGU EIDDO - DOLAWEN, CLOS FFERWS, CAPEL HENDRE**

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, roedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth hon yn debygol o niweidio'r ymgeiswyr ar hyn o bryd.**

Ystyriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol gais gan Dolawen Cyf am grant ar gyfer adeiladu cyfleuster newydd i Midtec Products Ltd. yng Nghapel Hendre a fyddai'n darparu ar gyfer 37 o swyddi yn ogystal â chreu lle cyflogaeth 11,152 troedfedd sgwâr.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais canlynol am grant o Gronfa Datblygu Eiddo Sir Gaerfyrddin yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:-**

| **Ymgeisydd / Eiddo** | **Dyfarniad** |
|---|---|
| Dolawen Cyf / Llain 3b, Clos Fferws, Capel Hendre | £416,647.70 |

## 6. CRONFA CYCHWYN BUSNES/TWF BUSNES SIR GAERFYRDDIN

**Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 4 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Roedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion a dyheadau busnes ac ariannol yr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, roedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran tryloywder ac atebolrwydd, gan y byddai datgelu'r wybodaeth hon yn debygol o niweidio'r ymgeiswyr ar hyn o bryd.**

Yn dilyn cofnod 3 o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2018 ystyriodd yr Aelod o’r Bwrdd Gweithredol geisiadau am gymorth gan Gronfa Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin a Chronfa Twf Busnes Sir Gaerfyrddin. Blaenoriaeth y ddwy gronfa oedd cefnogi'r gwaith o greu swyddi a busnesau newydd yn y Sir.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r ceisiadau canlynol am gymorth o Gronfa Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin a Chronfa Twf Busnes Sir Gaerfyrddin yn amodol ar y telerau a'r amodau arferol ac ar y rhai a bennwyd yn yr adroddiad:**

**Cronfa Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin**

| **Ymgeisydd** | **Dyfarniad** |
|---|---|
| A & J Partners Ltd. T/A Harry Watkins | £1090.37 |
| Mesen | £2331.20 |
| Music Headquarters Ltd | £9,587.16 |

**Cronfa Twf Busnes Sir Gaerfyrddin**

| **Ymgeisydd** | **Dyfarniad** |
|---|---|
| Thomas & Thomas Plant and Tool Hire | £5,000.00 |
| Williams Marine | £10,000.00 |
| Preseli Bluestone Meats | £10,000.00 |
| Rock The Dragon | £5000.00 |
| Treharne Automotive Engineering Ltd | £10,000.00 |
| Fferm Trefin | £9,000.00 |

**AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL** **DYDDIAD**